

## **Thema 1 - Rôl a phwrpas PIP**

- rôl PIP i alluogi pobl anabl a'r rhai â chyflyrau hirdymor i fyw'n annibynnol a chymryd rhan lawn yn y gymdeithas (o'r Cylch Gorchwyl)
- pa rôl y gallai ac y dylai'r asesiad ei chwarae i ddatgloi cymorth ehangach i gyflawni safonau byw uwch a mwy o annibyniaeth (o'r Cylch Gorchwyl)
- i ba raddau y mae pwrpas PIP yn cael ei ddeall
- beth mae byw'n annibynnol yn ei olygu, a beth mae hyn yn ei olygu i PIP
- rôl PIP i alluogi a chefnogi pobl i wneud gweithgaredd ystyrlon, gan gynnwys cyflogaeth
- ffactorau sy'n effeithio ar y costau ychwanegol y mae pobl anabl yn eu hwynebu
- canfyddiadau o PIP mewn cymdeithas a sut mae hyn yn effeithio ar ryngweithiadau pobl â PIP
- gweledigaeth ac uchelgeisiau ehangach ar gyfer PIP a phobl anabl

## **Thema 2 - Cymhwysedd, tegwch a chyfiawnder wrth ddyfarnu PIP**

- y meini prawf asesu ar gyfer elfennau Symudedd a Bywyd Bob Dydd PIP – gan gynnwys gweithgareddau, disgrifwyr a phwyntiau cysylltiedig – ac a yw'r rhain yn effeithiol wrth ddal effaith cyflyrau iechyd hirdymor ac anabledd yn y byd modern (o'r Cylch Gorchwyl)
- a ddylid ystyried unrhyw dystiolaeth arall, ochr yn ochr â'r asesiad swyddogaethol, i adlewyrchu'n deg effaith byw gyda chyflwr iechyd neu anabledd hirdymor (o'r Cylch Gorchwyl)
- sut y gallai'r asesiad PIP ddarparu mynediad teg i'r gefnogaeth gywir ar y lefel gywir ar draws y system fudd-daliadau (o'r Cylch Gorchwyl)
- rhyngweithiadau PIP â mathau eraill o gefnogaeth, a sut y gellir ei ddefnyddio i lenwi bylchau mewn cefnogaeth ehangach
- y defnydd o dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu PIP
- y rhwystrau ychwanegol y gall pobl, fel y rhai â nodweddion gwarchoddedig, o wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol, neu mewn gwahanol leoliadau, eu hwynebu
- darpariaethau ar gyfer pobl â chyflyrau amrywiol, lluosog ac episodig
- y defnydd o dechnoleg yn y broses o gasglu tystiolaeth

### **Thema 3 - Profiad o wneud cais PIP**

- ymddiriedaeth cwsmeriaid yn y broses
- y broses a'r profiad asesu
- ecwiti a chynhwysiant yn y broses
- canfyddiad ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y system PIP
- cyfathrebu a hygyrchedd
- hyfforddiant a sgiliau gweithwyr proffesiynol
- addasiadau rhesymol drwy gydol y broses o wneud cais
- defnydd o ddarparwyr asesu allanol
- y broses adolygu dyfarniadau
- y broses apelio
- rôl technoleg, gan gynnwys y defnydd posibl o AI, yn y broses

### **Thema 4 - Newid cyd-destun, a'r effaith ar PIP**

- y ffactorau sy'n cyfrannu at gynnydd yn nifer y bobl anabl yn y gymdeithas, gan gynnwys cyflyrau, oedrannau a phobl gwahanol, yn ogystal â salwch terfynol
- effaith newidiadau yn y gymdeithas ehangach ar gyffredinolrwydd anabledd a'r nifer cynyddol o hawlwr PIP
- effaith newidiadau yn y gweithle a'r farchnad lafur
- hyblygrwydd PIP i addasu i newidiadau yn y dyfodol mewn anabledd a chymdeithas.
- addasu i ddiddymu'r Asesiad Gallu i Weithio (WCA) yn y dyfodol a newidiadau eraill i fudd-daliadau
- sut y gall PIP aros o fewn terfynau ariannol sefydlog